

Taliadau Uniongyrchol i Oedolion – barn defnyddwyr gwasanaethau

Tachwedd 2022



Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd Archwilio Cymru ei adroddiad yn ystyried pa mor dda yr oedd cynghorau yng Nghymru'n darparu Taliadau Uniongyrchol ar gyfer pobl mewn angen. Mae'r papur hwn yn crynhoi barn derbynyddion Taliadau Uniongyrchol a gofalwyr, a ddywedodd wrthym beth maen nhw'n ei feddwl am y ffordd y mae eu cyngor yn gwneud hyn.

Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Arian a delir yn benodol i brynu gwasanaethau neu offer sy'n helpu i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol neu gymorth pobl yw Taliadau Uniongyrchol. Gellir eu defnyddio fel dewis yn lle gwasanaethau gofal neu gymorth a drefnir yn uniongyrchol gan gynghorau. Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi mwy o ddewis i bobl, mwy o hyblygrwydd a mwy o reolaeth ar y cymorth y maent yn ei gael.

Adolygiad Archwilio Cymru

Yn ystod mis Awst a mis Medi 2021, fe siarodom ni gyda 1,028 o bobl ledled Cymru a oedd yn cael Taliadau Uniongyrchol. Mae hyn yn cynrychioli oddeutu 1 ymhob 6 o'r bobl a oedd yn cael Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru ar y pryd.

Fe wnaeth hyn sicrhau bod barn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ganolog i'n hymchwil. Ar y cyfan, canfu ein hadolygiad fod Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi annibyniaeth pobl a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ond bod anghysonderau'n golygu nad yw gwasanaethau wastad yn deg ac wastad yn rhoi gwerth am arian.

[Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar ein gwefan.](#)

Ar y cyfan, mae'n amlwg bod gan ddefnyddwyr Taliadau Uniongyrchol lefelau bodlonrwydd uchel ar y gwasanaethau y maent yn eu cael:

Dywedodd **91%** o'r rhai a arolygwyd gennym fod Taliadau Uniongyrchol wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hannibyniaeth a'u lles

Mae **85%** yn teimlo mai Taliadau Uniongyrchol yw'r opsiwn cywir iddynt hwy

Mae **76%** yn fodlon ar ansawdd y gwasanaethau y mae eu cyngor yn eu darparu i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

Er gwaethaf lefelau uchel o fodlonrwydd ar y cyfan, mae ein hadroddiad yn amlgu y gallai cynghorau wella sut y maent yn hyrwyddo mynediad at Taliadau Uniongyrchol ac yn eu rheoli.

Ffeithiau allweddol am Daliadau Uniongyrchol

Yn 2018-19, rhoddodd gwasanaethau cymdeithasol gymorth i **125,415 o oedolion**.

O'r rhain, cafodd **6,262 (5%)** Daliadau Uniongyrchol.

Rhwng 2016-17 a 2018-19, fe wnaeth **14 o'r 22** o awdurdodau lleol gynyddu'r niferoedd oedd yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol.

Roedd y cynnydd canrannol mwyaf yn Ynys Môn (**90.4%**). Roedd y gostyngiad mwyaf yng Nghasnewydd (**-28.8%**).



Roedd ychydig dros draean o'r oedolion a oedd yn cael taliadau uniongyrchol, **36.1%**, yn bobl hŷn (65 oed neu drosodd), gyda **63.9%** yn 18-64 oed. Mae hyn er bod pobl hŷn yn rhoi cyfrif am fwy na **75%** o'r oedolion sy'n cael gwasanaethau cymdeithasol.

O'r ffigwr hwn, gwariwyd **£79.5 miliwn** (3.5%) ar Daliadau Uniongyrchol ar gyfer oedolion.

Y Taliad Uniongyrchol cyfartalog yn 2018-19 mewn termau real oedd **£12,344**, gan amrywio o **£6,033** yng Ngheredigion i **£21,836** yn Wrecsam.



Yn 2018-19, roedd y gyfran o oedolion a oedd yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy Daliadau Uniongyrchol yn amrywio o **1.6%** yng Ngwynedd i **12.9%** yng Ngheredigion.



Cododd gwariant awdurdodau lleol ar Daliadau Uniongyrchol **117%** mewn termau real o **£36.6 miliwn** yn 2010-11 i **£79.5 miliwn** yn 2020-21.



Yn 2020-21, fe wariodd awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol **£2.29 biliwn** ar yr holl wasanaethau cymdeithasol.

Nid yw pobl yn cael cymorth mewn modd cyson i ddechrau defnyddio Taliadau Uniongyrchol

Dod i wybod am Daliadau Uniongyrchol

- Yn ôl ein harolwg ni, ychydig iawn o bobl (**2%**) a ddaeth i wybod am Daliadau Uniongyrchol gyntaf trwy wybodaeth wedi'i chyhoeddi.
- Daeth **bron i draean** o'r derbynyddion presennol (**63%**) i wybod am Daliadau Uniongyrchol pan ddywedodd gweithiwr gwaith cymdeithasol proffesiynol wrthynt pan oeddent yn cael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion.
- Dywedodd **75%** fod ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar eu cyfer am Daliadau Uniongyrchol naill ai'n **dda** neu'n **dda iawn**.
- Ac roedd **70%** yn teimlo bod y staff yn y cyngor y siaradon nhw gyda hwy wir yn deall Taliadau Uniongyrchol ac yn gallu esbonio pethau wrthynt yn glir
- Roedd **66%** o'r derbynyddion presennol yn teimlo'u bod wedi'u hannog gan eu cyngor i ddechrau defnyddio Taliad Uniongyrchol.

Dywedodd **75%** fod ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar eu cyfer am Daliadau Uniongyrchol naill ai'n dda neu'n dda iawn

“ A bod yn onest, wn i ddim sut y byddem yn goroesi heb Daliadau Uniongyrchol ”



“ Rwy'n meddwl ei fod yn weddol gymhleth. Rwy'n dod o gefndir lle'r wyf yn cyflogi pobl, ond rwy'n meddwl y gall fod yn eithaf brawychus i rai pobl ”

Asesu anghenion pobl

Mae natur a chanlyniad y sgwrs Yr Hyn sy'n Bwysig a'r asesiad o anghenion yn ffactorau pwysig wrth benderfynu a yw pobl yn dechrau defnyddio Taliadau Uniongyrchol.

- Roedd ychydig **dros dri chwarter (76%)** yr ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo'u bod yn cael eu hannog i ddweud wrth eu cyngor am y pethau a oedd o bwys iddynt ac yn teimlo bod pobl yn gwranddo ar eu llais yn ystod eu hasesiad o anghenion.
- Roedd **83%** yn teimlo bod yr hyn y cytunwyd arno yn ystod yr asesiad yn iawn iddynt hwy.

Mae'r modd y rheolir ac y cefnogir pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n eang ac mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael gwasanaethau o safon wahanol

Gallu pobl i reoli Taliadau Uniongyrchol

- Canfu ein harolwg fod **76% o bobl** wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol posibl fel cyflogwr wrth ddechrau defnyddio Taliad Uniongyrchol.
- Ac fe drafododd **75% o'r derbynyddion presennol** eu gallu i reoli Taliadau Uniongyrchol gyda'u cyngor cyn dechrau eu defnyddio.
- Cafodd **70% o bobl** eu gwneud yn ymwybodol y gall fod rhaid iddynt gyfrannu'n ariannol at eu costau gofal a chymorth.

O'r **638 o ymatebwyr i'r arolwg** a gadarnhaodd eu bod yn cyfrannu'n ariannol at eu costau gofal a chymorth, roedd **80% yn cytuno** bod eu cyfraniad yn fforddiadwy, a dywedodd **20%** nad oedd yn fforddiadwy. (Sylwer – roedd hyn ar adeg ein harolwg, cyn yr argyfwng costau byw).

“ Mae Taliad Uniongyrchol yn well opsiwn o lawer nag asiantaethau ”



“ Dim cymorth na rhwydwaith i gynorthwyo gyda recriwtio ”



Prynu gwasanaethau gofal a chymorth gan ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol

- Dim ond **49%** o ymatebwyr i'r arolwg ddywedodd wrthym eu bod yn cael y broses o ddod o hyd i ddarparwr gofal a chymorth addas a'u penodi'n rhwydd neu'n rhwydd iawn. Dywedodd dros draean (34%) fod y broses naill ai'n anodd neu'n anodd iawn.
- Cafodd **dros chwarter (27%)** y derbynyddion restr o 'ddarparwyr cymeradwy' i ddewis eu darparwr gofal a chymorth ohoni.
- Roedd **mwyafrif llethol (90%)** yn teimlo'u bod yn gallu cyflogi pwy bynnag yr oedd arnynt eisiau ei benodi, ac roedd cyfran debyg (89%) yn fodlon ar eu darparwr gofal a chymorth presennol.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu pobl i fyw'n annibynnol a gwella'u llesiant, ond mae'n anodd asesu gwerth am arian ar y cyfan oherwydd cyfyngiadau o ran data a gwerthuso

“ Dydw i ddim yn gallu cael gafael ar unrhyw un mewn gwirionedd. Mae fy mab arall yn fy helpu gyda'r holl waith papur gan nad oes e-bost na chyfrifiadur gen i ”



Cymorth dilynol a pharhaus gan gynghorau

- Dywedodd 78% o ymatebwyr i'r arolwg wrthym eu bod yn cael cymorth o ansawdd da i'w helpu i reoli eu Taliadau Uniongyrchol.
- Fe ofynnem ni i bobl beth sy'n digwydd i'r arian os yw Taliadau Uniongyrchol yn cronni yn eu cyfrif dros amser:
 - Dywedodd **32%** fod eu cyngor yn cymryd yr arian yn ôl ond yn dweud wrthynt ymlaen llaw
 - Dywedodd **10%** eu bod yn cronni dros amser a'u bod yn gallu ei wario fel a fyddant, cyn belled â bod yr arian yn cyfrannu at ddiwallu eu hanghenion
 - Dywedodd **5%** fod y cyngor yn cymryd yr arian yn ôl heb lawer o rybudd neu heb unrhyw rybudd
 - Dywedodd cyfran sylweddol, sef **24%**, nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd yn yr achos hwn.
 - Dywedodd **28%** nad yw taliadau'n cronni.
- Cyn dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, roedd oddeutu **hanner y derbynyddion presennol (54%)** yn teimlo bod lefel y cyswllt dilynol gan eu cyngor ynghylch eu Taliadau Uniongyrchol yn iawn fwy neu lai. Roedd **dros chwarter (27%)** yn teimlo nad oedd yn ddigon.

Cymorth yn ystod y pandemig

- Yn ystod y pandemig, dim ond **44%** ddywedodd fod eu cyngor wedi cysylltu â hwy'n benodol i wirio a oeddent yn profi unrhyw broblemau o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.
- Yn yr un modd, dywedodd **35%** fod eu cyngor wedi cael gafael ar gyfarpar diogelwch personol (PPE) ar gyfer eu darparwr gofal a chymorth ar eu rhan yn ystod y pandemig - dywedodd **57%** na ddarparodd eu cyngor gyfarpar diogelwch personol.

“ Mae wedi fy ngalluogi i fod â rheolaeth ar fy mhecyn gofal fy hun ”



Nodweddion awdurdod lleol sy'n mynd ati'n effeithiol i annog, rheoli a chynorthwyo pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol



Awdurdodau lleol sy'n dda am **hyrwyddo** Taliadau Uniongyrchol

Mae ganddynt wybodaeth gyhoeddus syml a chryno y trefnir ei bod ar gael mewn ystod eang o gyfryngau ac sydd wedi cael ei phrofi i sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn dweud yr hyn y mae ar bobl angen ei wybod

Maent yn cynnig ac yn annog pobl i ddefnyddio eiriolaeth annibynnol i helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus

Maent yn defnyddio'r sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn y broses asesu i egluro Taliadau Uniongyrchol

Caiff Taliadau Uniongyrchol eu hyrwyddo fel opsiwn o leiaf yn gyfartal gyda dewisiadau eraill



Awdurdodau lleol sy'n **rheoli** Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol

Maent yn helpu pobl i gael gafael ar Gynorthwywyr Personol a'u defnyddio

Maent yn 'datgyfrinio' yr hyn yw Taliadau Uniongyrchol ac yn rhoi digon o gymorth i sicrhau pobl ynghylch gofynion o ran cyflogaeth, rhwymedigaethau a phrosesau i droi atynt. Cyfyngir i'r eithaf ar fiwrocratiaeth.

Maent yn nodi'n glir ar gyfer beth ellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol gan roi enghreifftiau o'r math o gymorth sydd ar gael a, lle y bo'n bosibl, gan roi anogaeth i arloesi

Maent yn cynnal cyswllt rheolaidd a pharhaus ac yn rhoi cymorth a gwybodaeth i oedolion sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i egluro cyfrifoldebau a sicrhau bod pobl yn cadw'n ddiogel

Maent yn gweithio i drefnu'r 'farchnad' a thrwy wella mynediad at Gynorthwywyr Personol, gan annog mwy o ddarparwyr, rheoli costau a rhoi anogaeth i gyfuno cyllidebau

Maent yn cytuno ar y cyd â chyrff y GIG sut orau i ddiwallu anghenion cleientiaid sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG fel nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais



Awdurdodau lleol sy'n **cyflawni** deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol

Maent yn dangos bod llesiant pobl yn cael ei gynnal neu'n gwella o ganlyniad i Taliadau Uniongyrchol

Mae ganddynt system gynhwysfawr ar gyfer monitro a gwerthuso pob agwedd ar Taliadau Uniongyrchol

Maent yn cynnwys ac yn gwerthfawrogi mewnbwn gan yr holl randdeiliaid/ partneriaid wrth werthuso effaith gwasanaethau

Maent yn cymharu ac yn meincnodi perfformiad unigol a chyfunol ag eraill ac yn defnyddio canfyddiadau gwerthuso i drefnu cynlluniau cyfredol a dulliau yn y dyfodol

Maent yn gwybod beth sy'n gweithio a pha un a yw dull yr awdurdod yn cyflawni dyheadau'r Ddeddf



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau yn
y Gymraeg a'r Saesneg.

Ebost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru